## CYNGOR CYMUNED DOLWYDDELAN

Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth i'r Senotaff ar gyfer y Gwasanaeth Cofio blynyddol. Mae hon yn bartneriaeth rhwng Cyngor Cymuned Dolwyddelan ac Eglwys Bro Gwydyr / Eglwys Sant Gwyddelan yn ei sefydliad. Hoffem ddangos ein gwerthfawrogiad am y gefnogaeth amhrisiadwy gan Dolwyddelan yn ei Blodau, y gwaith torri glaswellt gan Idris, y toriadau pren o filwyr gan Mark a Gwasanaeth Coed Alfa am lanhau a pharatoi'r briffordd. Cymerodd Hugh Thomos y gwasanaeth yn yr eglwys ac arweiniodd y seremoni yn y senotaff. Diolch i bawb wnaeth helpu gyda'r darlleniadau a chwarae'r gân Last Post and Reveille.

Rydym ni wedi derbyn ychydig o gyllid gan Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru a CVSC i ddarparu cinio i bensiynwyr unwaith y mis am 5 mis i 12 pensiynwr yn y pentref. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn llwyddiannus ac os felly, byddwn yn chwilio am gyllid pellach i'w barhau a gobeithio ehangu'r cynnig.

Yn ystod yr haf fe wnaethom gais i Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy UKSPFT a Chronfa Cymunedau Eryri am gyllid i gwmpasu cam nesaf yr astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynllun hydro bach posibl yng Nghwm Penamnen. Roeddem yn llwyddiannus gyda'r cais am gyllid a fydd yn caniatáu inni fwrw ymlaen gydag arolygon topograffig, archeoleg, ecoleg a geomorffeg. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud ac os ydy'r cynllun yn hyfyw, byddwn yn dod â'r gwahanol opsiynau yn ôl i'r gymuned i weld a ydy'n bosibl bwrw ymlaen â chynllun i gynyddu gwytnwch Dolwyddelan drwy fuddsoddi mewn system cynhyrchu ynni sy'n eiddo i'r gymuned.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government
CONWY Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Parc Cenedlaethol Eryri National Park
Cronfa Cymunedau Eryri
Eryri Communities Fund

Dros yr haf rydym wedi ysgrifennu eto at Ken Skates, Ysgrifennydd Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, am ein diffyg llwybr bws. Mae ei ateb yn nodi eu bod yn gwneud cynlluniau i symud i ffwrdd o'r system ddadreoleiddio bresennol o ddarparu gwasanaethau bysiau i system fasnachfraint newydd wedi'i chydgysylltu'n ganolog drwy'r Bil Bysiau (Cymru) newydd sydd ar hyn o bryd yn gwneud ei ffordd drwy'r Senedd. Bydd hyn yn caniatáu i Drafnidiaeth Cymru a'r awdurdodau lleol gyflwyno rhwydwaith mwy cydgysylltiedig o wasanaethau gaiff eu gyrru yn fwy gan angen teithwyr nag elw cwmnïau bysiau. Byddwn yn parhau i drio gyda Chyngor Conwy a Thrafnidiaeth Cymru i gael gwell gwasanaeth. Rydym